

# Heddlu Gogledd Cymru

## Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2022-2023

Yn unol ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod eu cyfrifoldeb fel cyflogwr i fod yn ymwybodol am y posibilrwydd am achosion o gaethwasiaeth fodern a hysbysu am achosion neu bryderon i'r cyrff perthnasol. Ategir y datganiad hwn gan Gynllun Gweithredu lleol.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r gwaith a ymgymerir yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n darford 31 Mawrth 2022 er mwyn nodi, atal ac ymdrin â chaethwasiaeth fodern ledled yr heddlu a'i gadwyni cyflenwi.

### Beth yw Caethwasiaeth Fodern?

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol. Mae'n dod mewn sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol a masnachu pobl. Maent i gyd ag un peth yn gyffredin sef unigolyn yn amddifadu rhyddid un arall er mwyn cymryd mantais ohonynt am fantais bersonol neu fasnachol.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl yn ymroddedig i sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern na masnachu mewn pobl yng nghadwyni cyflenwi'r heddlu nag yn unrhyw ran o'r busnes. Mae polisiâu a gweithdrefnau'r heddlu a'n gwaith i ymdrin â chaethwasiaeth fodern drwy weithgor yn arddangos ein hymroddiad i weithredu'n foesebol, gydag uniondeb a nodi risgiau y gallwn weithio i'w lliniaru.

Yn 2017, gwnaeth Comisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabiliaid pedwar heddlu Cymru lofnodi Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi Llywodraeth Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwbl ymroddedig i ymdrin ag arferion cyflogaeth anfoesebol ac anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r datganiad hwn wedi'i ategu gan Gynllun Gweithredu er mwyn cyflawni'r ymrwymïadau o fewn y Cod.

Mae ein hymdriniaeth tuag at nodi ac ymdrin â phroblemau cadwyn gyflenwi foesebol drwy weithredu'r Cod ledled yr heddlu a'r gadwyn gyflenwi yn canolbwyntio ar bedwar maes:

**Gorfodi** – Gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru chwarae rôl weithredol mewn gorfodol. Gwnaiff ddefnyddio ein rolau mewn cyflogaeth a phrynu nwyddau a gwasanaethau i wella casglu cudd-wybodaeth wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r Cod Ymarfer ynghyd a gweithredu'n brydlon ar y wybodaeth a dderbynnir.

**Caffael Moesebol** – Gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru hybu datblygu cadwyni cyflenwi moesebol wrth gyflwyno cytundebau ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru yn gyffredinol a phenodol yng Ngogledd Cymru

**Cyflogaeth** – Gwnaiff Heddlu Gogledd Cymru anelu i ddilyn arfer gorau ac arddangos ymrwymiad llawn i welliant cyson o fewn ei systemau a'i strwythurau ei hun, ynghyd a gweithio gyda'r heddluoedd eraill yng Nghymru a chyda phartneriaid er mwyn nodi a dileu unrhyw fath o gamfanteisio.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES  
POLICE**

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyafr diogel** yn y DU  
making North Wales the **safest** place in the UK

**Amgylchfyd** – Bydd Gogledd Cymru yn anelu creu amgylchfyd mwy anghyfeillgar i droseddwyr caethwasiaeth fodern. Gwnawn annog y cyhoedd i hysbysu am unrhyw arwyddion o gamfanteision yn ei holl ffurfiau. Gwnawn weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys llywodraeth leol, BIPBC a grwpiau gwirfoddol a chymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth - a hysbysu - am arwyddion camfanteisio. Gwnawn sicrhau fod ein holl staff - yn enwedig Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a staff yn ein Canolfan Gwasanaeth Cyhoeddus - yn gwbl ymwybodol o'r hyn i chwilio amdano a'r hyn i'w wneud pan hysbysir am bryderon.

Rydym yn cydnabod fod caethwasiaeth fodern yn ymestyn ymhell tu hwnt i'n ffiniau cenedlaethol ac y cynyddir risgiau gyda chadwyni cyflenwi cymhleth. Tra mae ymdrin â chaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth blismona i bob heddlu, mae heddluoedd Cymru yn cydnabod y gall caethwasiaeth fodern ymestyn drwy ein cadwyni cyflenwi. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb ymdrin â hyn drwy ein harferion caffael gan gydnabod fod ein cadwyni cyflenwi yn amrywiol a chymhleth.

Mae adolygiad cychwynnol o'n cadwyni cyflenwi wedi amlygu'r risg posibl o gaethwasiaeth fodern yn y categorïau canlynol:

- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Adeiladu
- Gwasanaethau Glanhau a Gwaredu Gwastraff
- Gweithgynhyrchu Lifrai

Rydym yn cydnabod fod cadwyni cyflenwi ymchwilio llawn yn orchwyl anodd gyda'r adnoddau sydd ar gael. Ond rydym wedi dechrau'r gwaith hwn drwy ymgorffori caethwasiaeth fodern yn rheolaidd i'n holiadur cyflenwyr. Ystyrir meysydd risg uwch oherwydd eu math o ddiwydiant, natur y gweithlu, lleoliad cyflenwr, math o nwyddau a lefel ein gwariant.

Rydym wedi ymroi i rannu gwybodaeth ledled heddluoedd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfyngedig i ymchwilio ein cadwyni cyflenwi yn seiliedig ar lle ceir y risg mwyaf o gamfanteisio ar bobl. Gwnawn weithio i godi ymwybyddiaeth am broblemau caethwasiaeth fodern ledled ein cadwyni gyflenwi ac fe wnawn fabwysiadu cynllun gweithredu risg.

## Polisi a Chanllawiau

Rhennir ymateb gweithredol yr heddlu i gaethwasiaeth fodern ymysg cyfrifoldebau ein Prif Uwcharolygyddion Gwasanaethau Trosedd a Gwasanaethau Plismona Lleol. Mae'r canllawiau a roddir gan yr heddlu mewn lle gyda'r nod o leihau'r risg o niwed difrifol i ddioddefwyr a gwella eu diogelwch, iechyd a llesiant. Mae'r canllawiau'n amlinellu sut yr ymdrinnir â throseddau caethwasiaeth fodern. Drwy erlyn troseddwyr yn llwyddiannus, rydym yn anelu gwella ymddiriedaeth a hyder dioddefwyr. Rhoddir hyfforddiant i swyddogion rheng flaen. Mae Arolygyddion yn gyfrifol am gydlynu presenoldeb mewn digwyddiadau, gan leihau risgiau uniongyrchol a gwarchod y wybodaeth sydd ar gael.

Mae Strategaeth Gaffael Heddlu Gogledd Cymru yn ymgorffori Polisi Caffael Cyfrifol.

Mae polisiâu perthnasol eraill yn cynnwys Cod Moeseg y Coleg Plismona a'n polisi Gwrthlygredd. Mae gwaith yn parhau i gwblhau polisi Chwythu Chwiban Cymru Gyfan er mwyn cynorthwyo Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru a grymuso staff i godi amheuan am unrhyw arfer cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyaf diogel** yn y DU  
making North Wales the **safest** place in the UK

## Diwydrwydd Dyledus ac Asesiad Risg

Gwnaed cynnydd yn ystod y cyfnod blaenorol i ymdrin ag arferion cyflogaeth anfoesegol ac anghyfreithlon yn ein cadwyni cyflenwi ac fe grynhoir y gwaith isod:

### Datblygu Polisi

- Cynnwys caethwasiaeth fodern o fewn Cynllun Cyflawni'r Heddlu 2021-22 gan gynnwys gwneud Gogledd Cymru yn amgylchfyd mwy anghyfeillgar i droseddwyd.
- Penodi 'Pencampwr Caffael Moesegol' ar lefel Prif Swyddog.
- Gwneud diogelu pobl fregus yn flaenoriaeth glir yng Nghynllun Heddlu a Throsedd 2021-2024

### Gweithdrefnau Caffael

- Datblygiad cwestiynau caethwasiaeth fodern i'w cynnwys mewn tendrau priodol.
- Os yw'n briodol, cytuno ceisio sicrwydd gan gyflenwyr a chyflenwyr posibl drwy ein prosesau cynnig, nad ydynt yn gwybod am unrhyw un o'r ffurfiau o gaethwasiaeth fodern o fewn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Byddwn yn disgwyl i'r cyflenwyr fod yn gyfrifol am geisio sicrwydd tebyg oddi wrth eu cadwyni cyflenwi eu hunain.
- Cynnwys amodau a thelerau cadarn addas ynghylch caethwasiaeth fodern yn ein cytundebau cadwyn gyflenwi er mwyn gosod disgwyliadau'n glir.
- Rhannu arfer gorau gyda heddluoedd eraill Cymru

### Asesu cyflenwyr a chadwyni cyflenwi presennol

- Dadansoddiad gwariant cychwynnol er mwyn nodi cyflenwyr risg uwch gyda golwg ar gymhwyso Offeryn Asesiad Risg
- Dechrau gwaith gyda Bluelight Commercial er mwyn ystyried sut y gellir rhannu gwaith yn berthnasol i ymchwilio cadwyni cyflenwi moesegol gyda chyflenwyr cyffredin.

### Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

- Staff caffael strategol yn cwblhau hyfforddiant gloywi Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) blynyddol.
- Datblygu hyfforddiant Sgiliau Caffael ar-lein gan y Ganolfan Genedlaethol Technolegau Dysgu Cymhwysol (NCALT) er mwyn uwchsgilio swyddogion a staff.

### Cyflog Byw

- Cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl i gymhwyso cyflog byw'r Sefydliad Cyflog Byw i holl swyddogion a staff.

### Cynllun Cyflawni / Gweithredu

Er mwyn cynyddu cyflawni ein hymrwymiad ymhellach er mwyn ymdrin â chaethwasiaeth fodern, mae cynrychiolwyr o ystod eang o feysydd ledled yr heddlu gyda'n hamcanion ar gyfer 2022-2023 a gytunwyd a ddelir yn y Cynllun Gweithredu sy'n ategu'r Datganiad hwn.



**HEDDLU  
GOGLEDD CYMRU  
NORTH WALES  
POLICE**

gwneud Gogledd Cymru'r lle **mwyafr diogel** yn y DU  
making North Wales the **safest** place in the UK

Monitir cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu drwy weithgor, a gadeirir gan y Prif Swyddog gyda chyfrifoldeb am y Portffolio Gwasanaethau Cyllid a Busnes sydd hefyd yn Bencampwr Caffael Gwrth-Foesegol Heddlu Gogledd Cymru.

Gellir gweld cynllun gweithredu'r heddlu drwy'r ddolen isod:

- [Dolen i'r cynllun gweithredu yma](#)

### Sianelau Hysbysu ar gael

Mae gan y cyhoedd a'r staff gyfrifoldeb cyfartal i fod yn ymwybodol am achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu am fusnes yn defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag un o'r cyrff canlynol:

Heddlu Gogledd Cymru: Ffôn 101 (neu 999 mewn Argyfwng)

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: Ffôn 0800 0121700

Crimestoppers: Ffôn 0800 555 111

Llinell Uniondeb Gyfrinachol (yn fewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru yn unig)

Lawrlwythwch yr Ap Anweledig am ddim

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.



**Andy Dunbobbin**  
Comisiynydd Heddlu a  
Throsedd Gogledd Cymru



**Carl Foulkes**  
Prif Gwnstabl,  
Heddlu Gogledd Cymru



Arwyddwyd yn wreiddiol ar 15 Mawrth 2019

Adolygwyd a diweddarwyd 1 Awst 2022